

## Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Trefor Jones (Nantglyn) y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod, Mrs Dilys Jones, a gweddill y teulu, gan weddio y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at Bob Davies (Llanfair) sydd yn Ysbyty Gwynedd, ac Elizabeth Jones (Llansannan) sy'n parhau yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu Huw Edwards (Tanyfron) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau hefyd ond da clywed ei fod yn well erbyn hyn. Parhawn i gofio am eraill o'n plith sydd heb fod yn dda eu hiechyd a chofiwn hefyd am eu teuluoedd sy'n fawr eu gofal drostynt. Cyflwynwn hwy oll i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwenda Davies (Tanyfron) sydd newydd ddathlu penblwydd arbennig!

## Detholiadau

Os hoffech gael copi o


Raglen Cymanfaoedd Canu 2014-2015

(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),

rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul

**HEDDIW** os gwelwch yn dda. Pris: £1.35

(Arolygwyr: *Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r wythnos hon, os gwelwch yn dda?*)



## Iddod

- **CYFARFOD I WERTHFAWROGI GWEINIDOGAETH Y PARCH ERIC JONES** (a fydd yn ymddeol wedi iddo wasanaethu'i Ofalaeth bresennol am dros 25ain mlynedd, a thros 16eg o flynyddoedd cyn hynny yng ngofalaeth Llansannan) dydd Sul, Hydref 19eg am 3:30 yng Nghapel Berea Newydd, Bangor.
- **CYMDEITHAS LLANSANNAN** – Nos Lun, Hydref 20fed. Noson yng nghwmni Parti'r Siswrn dan arweiniad Mair Selway yn Ffestri Capel Coffa Henry Rees am 7.30.
- **YMATEB I'R ANGEN** – arweiniad gan John Robinson ar rannu'n ffydd gydag eraill yn Ffestri Llansannan nos Fercher, Hydref 22ain am 7.30.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR** nos Fercher, Hydref 22ain am 7.00. Pregethir gan Mr Meurig Edwards, Hen Golwyn. Croeso i bawb.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL Y GROES** nos Wener, Hydref 24ain am 7.00. Pregethir gan y Parch. Helen Wyn Jones, Eglwysbach. Croeso i bawb.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 12<sup>fed</sup> Hydref 2014

Darlleniad y Dydd

Daniel 6: 16-23

(BCND tud.810 / BCN: tud.738)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Tybed sut ydych chi'n meddwl am addoli Duw? Boed hynny mewn oedfa neu ar ein pen ein hunain, ydyw'n rhywbeth yr ydym yn edrych ymlaen tuag ato? 'Gwaith hyfryd iawn a melys yw addoli d'enw di, o Dduw.' Dyna'r ffordd yr oedd Dafydd Jones o Gaeo yn mynegi ei fawl yn emyn 18 Caneuon Ffydd. A ninnau'n cychwyn Sul arall o ganmol enw'n Harglwydd gyda'n gilydd, beth am i ni ofyn am gymorth yr Ysbryd Glân i brofi hyfrydwch cwmni Crist – wnawn ni'n sicr ddim difaru!

Y newyddion sydd wedi llenwi'r penawdau yng Nghymru dros yr wythnos ddiwethaf yw'r pwysau ariannol cynyddol ar gynghorau sir. Oherwydd cyflwr yr economi, mae'n ymddangos fod toriadau mawr ar y gorwel a nifer o wasanaethau allweddol dan fygythiad. Mae'n bur debyg felly y bydd pobl yn codi llais ac yn gwrthwynebu colli gwasanaethau y maent wedi dibynnu arnynt ers blynyddoedd. Dyma gwestiwn y mae angen i lawer ei ystyried – sut ydym ni'n ymateb pan mae bygythiadau neu sefyllfaoedd pryderus yn dod i'n rhan? Wrth droi at ein darlleniad am heddiw, gwelwn fod Daniel dan fygythiad difrifol. Mae'r gelynydd o'i gwmpas am ei waed ac yn credu iddynt ddarganfod ei fan gwan – ei berthynas â'i Arglwydd. Ond gwnaethant gamgymeriad anferth yn dibrisio ffydd Daniel, ac yn waeth, yn diystyru gallu a chariad rhyfeddol Duw tuag at ei bobl. Y munud y clywodd Daniel am y ddeddf oedd yn ei wahardd rhag gweddio ar ei Dduw, dyna'n union a wnaeth – mynd i'w gartref a throi at Dduw mewn gweddi. (Daniel 6:10) Hyd yn oed yn ffau'r llewod, roedd Daniel yn hyderus y byddai'r Arglwydd yn ei warchod rhag drwg, er nad oedd y sefyllfa'n ymddangos yn un obeithiol iawn! Wrth siarad gyda'r brenin ar ôl treulio'r nos gyda'r llewod, gallodd ddweud yn ddiolchgar bod ei Dduw wedi ei ddiogelu gan ei fod yn ddieuog yn ei olwg (ad. 22). Yn y geiriau hyn gwelwn ddarlun arbennig o ddiogelwch y Cristion sy'n ddieuog trwy gyfrwng ei ffydd yn Iesu Grist. Oherwydd fod Crist wedi wynebu'r gosb am ein pechodau ni trwy farw ar y groes, caiff y Cristion dderbyn maddeuant llwyr – rydym yn ddieuog yng ngolwg y Barnwr! Ond ar ben hyn, cawn addewid o ddiogelwch tragwyddol hefyd wrth i Dduw ein derbyn yn blant iddo – plant na fydd yn troi ei gefn arnynt, ac na fydd unrhyw beth yn gallu eu gwahanu oddi wrth Ei gariad tuag atynt yng Nghrist Iesu. (Rhufeiniad 8:39)

Os ydym yn teimlo pethau'n pwyso arnom, ac yn bygwth ein ffydd – beth am ddysgu o esiampl Daniel ac nid troi oddi wrth yr Arglwydd, ond ei geisio'n daer a dibynnu'n llwyr arno. Cofiwn anogaeth Iago: 'Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi.' (Iago 4:8)

## Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Pedr 3:8-13 (BCND tud.262 / BCN: tud.240)

Rhodri

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • **OEDFA'R FRO** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **NOSON ARDDANGOS A HYRWYDDO GWERSLYFRAU AC ADNODDAU CRISTNOGOL A CHYFLWYNIAD AR FATERION GOFAL A DIOGELWCH** yn Festri Llansannan rhwng 7.00 a 9.00. Bydd cyflwyniad 15 munud gan Aled Davies i gyfres o werslyfrau newydd ac adnoddau eraill am 7.30, ac yna am 8.00, bydd Julie Edwards yn rhoi cyflwyniad ar ran y Panel Diogelwch Cydenwadol i'r ddogfen Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus. Croeso cynnes i bawb.
- Mawrth • **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** yn cyfarfod **am 7.30** yng Nghapel y Groes pryd y ceir sgwrs a gân gan y Parch. Tecwyn Ifan.
- Sadwrn • **CYNHADLEDD CAMU** –“Does dim bywyd yn digwydd mewn gwacter” yng Ngholeg y Bala o 10.15 tan 3.30. Dyma ddiwrnod i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith eu heglwys. Pris: £19 (yn cynnwys paneidiau a chinio rhost 3 chwrs!) Cysylltwch â Choleg y Bala: 01678 520565 / [colegybala@ebcpcw.org.uk](mailto:colegybala@ebcpcw.org.uk) i gofrestru.
- Sul nesaf • **OEDFA'R FRO** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Aneurin yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 a bydd paned i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair **am 10.00** ac yng Nghefn Meiriadog am 1.15.
- Mawrth Cinio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb. Iau Oedfa Ddiolchgarwch Capel Cefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Robert Parry, Wrecsam yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Bydd **Pwyllgor Cymdeithas y Beibl** yn ymgynnull yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees am 7.15.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yn Saron am 10.00.
- Sadwrn Ffair Hydref Capel Peniel yn Eirianfa, Dinbych o 10 - 11.30 o'r gloch. Mynediad £1 yn cynnwys paned. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Llun Gwasanaethau Diolchgarwch Henllan – bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a'r Parch John Owen yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, bydd y Parch John Owen yn pregethu.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn y Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn gweinyddu'r cymun ac yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 2.00.
- Mercher Gŵyl Ddiolchgarwch Llanefydd – gwasanaeth gan blant yr ysgol yn y capel am 10.30 a phregeth gan y Parch. Huw John Hughes am 7.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

### Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
- Rhodri – ✉ [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
- Aneurin – ✉ [aneurin@eglwysibroaled.com](mailto:aneurin@eglwysibroaled.com) ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
- erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.